
**DATGANIAD AMRYWIAETH BWRDD COLEG GWENT**
**Cymeradwywyd 23 Mawrth 2023**




Mae Coleg Gwent yn goleg cynhwysol ac amrywiol lle mae croeso i bawb. Rydym am i'n coleg fod yn amgylchedd parchus, gyda meddwl agored tuag at ddiwylliannau, agweddau, credoau a syniadau gwahanol; lle gallwch fod yn chi eich hun heb ofni barn. Rhywle lle mae pawb yn perthyn. Fel Bwrdd y Llywodraethwyr, credwn ei fod yn hanfodol i ni gymryd arweiniad mewn dangos ymrwymiad i'r gwerthoedd hyn. Byddwn yn darparu goruchwyliaeth effeithiol, yn meithrin arferion cynhwysol ac yn gosod fframwaith sydd yn denu, diogelu, cefnogi a dathlu amrywiaeth. Bydd pob Llywodraethwr yn arwyddo'n flynyddol i gadarnhau eu hymrwymiad i Werthoedd Craidd y coleg a'r dull cynhwysol a amlinellir yn y Siarter Amrywiaeth.

Rydym yn cydnabod bod cynhwysiant yn rhan annatod o gyflawni ein Cenhadaeth i *'Newid Bywydau Trwy Ddysgu'*. I gefnogi hyn, mae arnom angen Llywodraethwyr sy'n adlewyrchu amrywiaeth ein staff a myfyrwyr, yn ogystal â'r gymdeithas ehangach. Yn y cyd-destun hwn, mae amrywiaeth yn cyfeirio at y nodweddion gwarchodedig a nodir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â chefndiroedd economaidd-gymdeithasol gwahanol, sgiliau iaith Gymraeg, profiad bywyd, llwybrau gyrfa ac amrywiaeth meddwl. Mae angen y cymysgedd cywir o sgiliau arnom i gyflawni ein cyfrifoldebau wrth lywodraethu'r coleg, ond rydym hefyd yn gwybod y bydd cofleidio ystod o wahanol gefndiroedd, profiadau a safbwyntiau yn cefnogi'r datblygiad o Fwrdd deinamig ac arloesol sy'n barod i wneud penderfyniadau a fydd o fudd i bawb.

Er ein bod yn cydnabod bod y Bwrdd, gyda 22 o Lywodraethwyr, yn grŵp cymharol fach o bobl, ein nod yw cael aelodaeth sy'n adlewyrchu'n agosach y cymunedau rydym yn eu gwasanaethu erbyn 2026. Rydym yn ymrwymo i:

- Gynnal rhaniad rhyw sy'n cynnwys cydbwysedd da o ddynion a menywod, yn ogystal ag aelodau anneuaidd neu drawsryweddol.
- Cydnabod pwysigrwydd yr Iaith Gymraeg a chael o leiaf 4 aelod sydd naill ai yn rhugl neu'n ddysgwr lefel uwch.
- Adlewyrchu amrywiaeth ethnig ein cymunedau a chynyddu nifer y Llywodraethwyr o gefndiroedd Du, Asiaidd neu Leiafrifol Ethnig i isafswm o 5.
- Cynyddu nifer y Llywodraethwyr o grwpiau eraill heb gynrychiolaeth ddigonol, gan gynnwys pobl anabl, y rheini o'r gymuned LDHTC+, ac unigolion o wahanol gefndiroedd economaidd-gymdeithasol sydd gyda phrofiadau byw gwahanol.
- Monitro cynnydd yn erbyn y targedau a nodwyd uchod ac adrodd yn gyhoeddus ar amrywiaeth ein Bwrdd.
- Adolygu'r Datganiad hwn yn flynyddol.

Er mwyn ein helpu i gyflawni ein targedau, bydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Aelodaeth yn sicrhau bod y proses recriwtio ar gyfer Llywodraethwyr yn agored, yn dryloyw ac yn cael ei ddiweddaru'n barhaus i adlewyrchu arfer gorau. Bydd gwybodaeth am gyfleoedd i ymuno â'n Bwrdd yn cael ei rhannu i'r gynulleidfa ehangaf bosibl trwy'r defnydd o lwyfannau recriwtio a chyfryngau cymdeithasol, yn ogystal â rhwydweithiau cymunedol, busnes ac amrywiaeth. Byddwn yn ceisio'n weithredol i ymgysylltu â'r gwahanol gymunedau yr ydym yn eu gwasanaethu, a gweithio gyda cholegau, aelodau'r bwrdd, gweithwyr llywodraethu proffesiynol a swyddogion eraill ar draws y rhanbarth i godi ymwybyddiaeth o rôl Llywodraethwyr y coleg.

Bydd pob cais am benodiad i'r Bwrdd yn cael ei ystyried ar sail haeddiant yn erbyn meini prawf gwrthrychol. Bydd recriwtio yn cael ei lywio gan adolygiad rheolaidd o ddata ar broffil amrywiaeth a sgiliau'r Bwrdd. Bydd y Bwrdd yn adolygu Adroddiad Blynyddol gan y pwyllgor a fydd yn crynhoi ei waith a'r camau a gymerwyd mewn perthynas â gwella a monitro amrywiaeth y Bwrdd. Bydd gwybodaeth am amrywiaeth y Bwrdd ar gael i'r cyhoedd ar wefan y coleg.